Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Illtyd
# Heol Casnewydd
# Tredelerch
# Caerdydd
# CF3 1XQ

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Illtyd

Ysgol cyfrwng Saesneg 11-16 yn nwyrain Caerdydd yw Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd.

Mae 872 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, o gymharu ag 849 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2012. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o ysgolion cynradd Catholig lleol ac o ysgolion cynradd eraill yn nwyrain y ddinas.

Mae tua 28.0% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae dros 67% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ysgol yn croesawu disgyblion o bob ffydd, a'r rheiny nad oes ganddynt unrhyw gefndir o ran ffydd. Mae poblogaeth yr ysgol yn amrywiol o ran ethnigrwydd. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae gan ryw 33% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ebrill 2018. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau uwch bennaeth cynorthwyol, tri phennaeth cynorthwyol, a rheolwr busnes.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fo'n ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Trwy ei chenhadaeth, sef ‘Gyda’n Gilydd yng Nghrist, gwnawn wahaniaeth’ (‘Together in Christ, we make a difference’), mae’r ysgol wedi adeiladu cymuned gynhwysol, lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwirfoddoli i gefnogi elusennau lleol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith ar y cyfan, yn enwedig mewn gwersi sydd â thasgau ymarferol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgysylltu’n ddigonol â’u gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda’u disgyblion. Mae mwyafrif yr athrawon yn cyflwyno gwersi wedi’u cynllunio’n dda sy’n galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas, yn enwedig yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw arferion asesu wedi’u datblygu’n ddigonol, ac nid yw lleiafrif o athrawon yn esbonio’n ddigon clir sut gall disgyblion wella ansawdd eu gwaith.

Mae’r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth gadarn a synnwyr clir o ddiben, yn seiliedig ar greu ysgol gynhwysol, lle mae gofal a phryder am bobl eraill yn ganolog iddi. Er bod ystod o bolisïau a phrosesau addas ar waith, nid yw’r rhain bob amser yn gweithio’n gydlynus. Nid yw arweinwyr yn gweithredu’n ddigon prydlon yn unol â’r canfyddiadau o weithgareddau hunanwerthuso. Yn benodol, nid ydynt yn ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn ddigonol yn ôl ei heffaith ar fedrau disgyblion, nac yn cynllunio’n ddigon da ar gyfer gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ar draws yr ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Cryfhau effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth, gan gynnwys hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, ar bob lefel

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A4 Gwella ymddygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol, ac yn cyflawni safonau sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso dysgu newydd yn ddigon da, ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol ar draws y cwricwlwm.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn dangos parch at yr athro, ac at eu cyfoedion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu o'u gwirfodd at drafodaeth ddosbarth, ac mae tua hanner y disgyblion yn mynegi eu syniadau'n glir, er enghraifft pan fyddant yn gwerthuso eu gwaith ymarferol mewn drama. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ymateb yn feddylgar i gwestiynau a ofynnir gan yr athro. Fodd bynnag, mae cyfraniadau lleiafrif o ddisgyblion ar lafar yn fyr a heb eu datblygu'n ddigonol, yn aml am nad oes gan y disgyblion hyn ddigon o eirfa, gwybodaeth na medrau i ddatblygu eu syniadau.

Wrth ddarllen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth sylfaenol, gadarn o'r testunau y maent yn eu hystyried. Yn gyffredinol, mae llawer ohonynt yn dethol a dod o hyd i wybodaeth o ffynhonnell wreiddiol yn dda. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dehongli ystod o destunau ffuglen a ffeithiol yn briodol, er enghraifft wrth ddadansoddi technegau perswadiol mewn hysbyseb ar gyfer elusen anifeiliaid. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau da o ran rhesymu a dod i gasgliad, a gwnânt bwyntiau sensitif a thra ystyriol, y maent yn eu cefnogi'n dda â thystiolaeth, er enghraifft pan fyddant yn amlinellu manteision ac anfanteision cyfryngau cymdeithasol, neu'n ymhelaethu ar ystyr y farddoniaeth serch y maent yn ei hastudio.

Mewn ychydig o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol at ystod amrywiol o ddibenion. Mae'r disgyblion hyn yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn briodol ac yn gwneud dewisiadau iaith perthnasol, gan gynnwys defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu gyda dawn a medr, ac mae ganddynt eirfa gyfoethog, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu darnau empathi yn seiliedig ar *Midsummer Night's Dream* gan Shakespeare, neu wrth esbonio sut mae J.B.Priestley yn cyfleu syniadau gwleidyddol trwy'r ddrama *An Inspector Calls*. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dibynnu'n ormodol ar sgaffaldio. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camsillafu geiriau cyffredin ac yn gwneud camgymeriadau gramadegol yn aml, yn enwedig â phriflythrennau ac atalnodau llawn, ac nid yw ychydig ohonynt yn defnyddio paragraffau bob amser.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol, ac maent yn hyderus wrth wneud cyfrifiadau pen syml. Mae'r disgyblion hyn yn cymhwyso eu medrau'n briodol i broblemau rhifiadol syml mewn ychydig iawn o feysydd y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo cost defnyddio ynni trydanol mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn wael wrth alw gwaith diweddar i gof, ac mae hyn yn rhwystro eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llunio graffiau addas, er enghraifft i egluro cyfradd ffotosynthesis neu ddadansoddi dewisiadau bwyd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn darlunio nac yn labelu graffiau na siartiau yn ddigon gofalus nac yn ddigon cywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilio'n hyderus ar-lein am wybodaeth, yn paratoi cyflwyniadau, ac yn creu dogfennau'n briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r tasgau syml hyn, cyfyngedig yw datblygiad medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu dawn greadigol a'u medrau meddwl yn dda, er enghraifft wrth ddefnyddio rhythmau Lladin Americanaidd trawsacennog yn fyrfyfyr mewn cerddoriaeth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau meddwl a'u dawn greadigol yn eu gwaith yn ddigon aml.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Gymraeg, ac mae eu geirfa sylfaenol yn gadarn. Mae'r disgyblion hyn yn delio'n dda ag amrywiaeth briodol o dasgau siarad, darllen ac ysgrifennu syml a hynod strwythuredig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw agweddau disgyblion tuag at yr iaith yn gadarnhaol, ac nid oes gan leiafrif ohonynt yr hyder i ymgymryd â gwaith trafod.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, bu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn amrywiol, a hyd at 2018, mae wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Yn y tair blynedd hyd at, ac yn cynnwys, 2017, gwnaeth disgyblion gynnydd cryf ar draws llawer o ddangosyddion, a chynnydd sylweddol mewn tua hanner ohonynt. Yn 2018, dirywiodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn sylweddol bron ym mhob dangosydd, ac mae'n cymharu'n llai ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Er i berfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ddisgyn yn 2018, mae'n cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg, er iddo ddirywio yn 2018. Yn y rhan fwyaf o bynciau y tu hwnt i'r pynciau craidd, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Er y bu rhywfaint o welliant yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU neu gyfwerth ar raddau A*-A yn 2018, mae'n parhau i fod islaw lefelau mewn ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd cyn 2018, bu perfformiad bechgyn a merched, yn y drefn honno, yn debyg i fechgyn a merched mewn ysgolion tebyg, neu'n well, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, yn 2018, dirywiodd perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 ym mhob dangosydd, a dirywiodd perfformiad bechgyn yn sylweddol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion. Yn yr un modd, roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â lefelau a gyflawnwyd gan eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, ond disgynnodd yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn 2018 hefyd. Yn gyffredinol, mae'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u targedau. Yr eithriad i bob grŵp o ddisgyblion yw eu perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio sydd, er gwaethaf gostyngiad yn 2018, yn parhau i gymharu'n dda â lefelau mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Yn 2018, cofrestrwyd bron pob un o'r disgyblion ar gyfer cymhwyster Cymraeg, ac enillodd lleiafrif ohonynt gymhwyster lefel 2. Fodd bynnag, bu nifer y disgyblion a gofrestrwyd, a'u deilliannau mewn cymwysterau Cymraeg, yn amrywiol dros y tair blynedd ddiwethaf.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae llawer o ddisgyblion yn foesgar a chwrtais â staff, â'i gilydd a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel mewn gweithgareddau ar-lein. Pan fyddant yn wynebu heriau neu bryderon personol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan staff. Mae llawer ohonynt o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin o fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mewn gwersi, maent yn cynnal ffocws addas ar eu tasgau ac yn talu sylw i'r athro. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymroi i'w gwaith, ac maent yn tarfu ar eu dysgu eu hunain, ac ar ddysgu disgyblion eraill.

Mewn gwersi ymarferol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda, yn frwdfrydig, ac yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i'r tasgau a osodir. Er enghraifft, mewn drama, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cyfraniadau ystyrlon at ddyfeisio perfformiad theatr corfforol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau dysgu annibynnol datblygedig digonol. Mae lleiafrif ohonynt yn dangos diffyg gwydnwch; er enghraifft, maent yn gofyn am gymorth gan yr athro yn rhy gyflym heb roi cynnig ar dasgau yn gyntaf drostynt eu hunain, ac yn aml yn gadael gwaith heb ei orffen. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd gofal digonol o ran cyflwyniad eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd diet synhwyrol a chymryd rhan mewn gweithgareddau iach. Mae lleiafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol, fel pêl-rwyd, gymnasteg a phêl-fasged.

Mae disgyblion yn cefnogi amrywiaeth o elusennau yn frwdfrydig, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r ffydd Gatholig. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn dda. Er enghraifft, maent wedi codi arian a chyfrannu eitemau i elusennau lleol a chenedlaethol fel CAFOD a Llamau. Maent hefyd yn cyfrannu'n ystyrlon at sefydliadau cymunedol trwy wirfoddoli.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, er enghraifft fel mentoriaid cyfoedion ym Mlwyddyn 11 yn rhoi cymorth i ddisgyblion iau. Fodd bynnag, nid yw rôl y cyngor ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, effaith gyfyngedig yn unig a gafodd ar wella agweddau ar fywyd ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Yn y gwersi gorau, maent yn cyfleu brwdfrydedd a hoffter am eu pwnc.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cyflwyno gwersi cynlluniedig y maent yn eu strwythuro'n briodol, ac o ganlyniad, yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd addas. Maent yn darparu adnoddau wedi'u dylunio'n dda, ac esboniadau pwrpasol i gynorthwyo disgyblion â'u dysgu. Mewn ychydig o bynciau, mae athrawon yn cynllunio tasgau ymarferol hynod ddifyr neu weithgareddau grŵp strwythuredig sy'n

llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion ac yn ennyn eu brwdfrydedd ynglŷn â'u dysgu. Yn y gwersi gorau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Mae'r athrawon prin hyn yn ysbrydoli, yn herio ac yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd cryf.

Mae llawer o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. Mae llawer ohonynt yn rheoli ymddygiad disgyblion yn briodol, gan weithio'n effeithiol gyda chynorthwywyr cymorth dysgu. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau. Nid oes gan leiafrif o athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ymddygiad a chynnydd disgyblion, ac nid ydynt yn herio ychydig bach o aflonyddwch yn ddigon cadarn. Yn yr achosion hyn, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf, ac mae disgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith yn gyflym.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn monitro gwaith disgyblion yn briodol yn ystod gwersi. Maent yn rhoi adborth llafar buddiol ac adeiladol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn gwneud defnydd addas o feini prawf llwyddiant i helpu disgyblion i gwblhau tasgau a mireinio eu gwaith. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio holi yn berthnasol i wirio dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn holi'n ddigon effeithiol i archwilio dealltwriaeth, ac maent yn aml yn dibynnu'n helaeth ar atebion gan grwpiau bach o ddisgyblion. Mewn llawer o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn nodi'r hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda, nac yn esbonio'n glir sut gallant wella ansawdd eu gwaith. At ei gilydd, mae gormod o adborth ysgrifenedig yn arwynebol, yn or-hael neu'n ddi-fudd.

Mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ennill gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth addas. Mae opsiynau cyfnod allweddol 4 yn cynnig ystod berthnasol o lwybrau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, sy'n bodloni eu hanghenion a'u dyheadau. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth allgyrsiol briodol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, ond mewn llawer o wersi, ni chânt eu herio'n ddigonol. Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn rhoi profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu'n ystyrlon gyda chyflogwyr a sefydliadau cymunedol. Trwy weithio gyda mentrau fel Syniadau Mawr Cymru a Dosbarth Busnes, mae'r ysgol yn galluogi disgyblion i brofi addysg berthnasol sy'n gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, fel rhan o'r her menter a chyflogadwyedd, mae disgyblion yn cynhyrchu syniadau ac yn creu cynlluniau busnes i ddangos sut byddant yn codi arian ar gyfer elusen iechyd leol. Maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ymgynghori busnes gyda chyflogwyr, ac yn cymryd rhan yn ddefnyddiol mewn tasgau cystadleuol heriol sy'n cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a llysgenhadon elusennau.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion ymweld â chyflogwyr, prifysgolion a digwyddiadau. Caiff y profiadau hyn effaith gadarnhaol ar godi dyheadau disgyblion, a'u hysbrydoli i feddwl am eu dyfodol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn raddol trwy ei grwpiau cynllunio strategol. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio data asesu i nodi ymyriadau addas ar gyfer disgyblion sydd â medrau gwannach. Caiff disgyblion gyfleoedd perthnasol i ymarfer eu medrau

llythrennedd a rhifedd yn ystod amser cofrestru. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd y mae'r ysgol yn eu darparu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan Ysgol Sant Illtyd ethos cynhwysol a chefnogol, sy'n cael ei ategu gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol ar y cyfan rhwng staff a disgyblion, ac ymrwymiad i werthoedd Catholig. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth a systemau bugeiliol priodol, gan gynnwys y bwletin lles wythnosol, cynlluniau gofal unigol a defnydd o'r gaplaniaeth. Mae'r rhain yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae cysylltiadau ag ystod eang o asiantaethau allanol fel mentoriaid pobl ifanc a Gweithredu dros Blant yn gwella'r ddarpariaeth hon. Mae'r ysgol wedi datblygu dull addas i ddelio ag achosion o fwlio.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol trwy wasanaethau, gweddïau, cyfnodau tiwtor, siaradwyr gwadd a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae Diwrnod Ysgol Sant Illtyd yn dathlu gwerthoedd ar y cyd goddefgarwch a chynwysoldeb. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr esgobaeth, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn arweiniad gwerthfawr ar faterion fel alcohol, cyffuriau, byw yn iach, cadw'n heini a diogelwch ar-lein.

Trwy ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn sioeau ysgol, ymweld â'r theatr a phrifysgolion, mae'r ysgol yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a hawliau pobl eraill. Er enghraifft, ailddrafftiodd grŵp o ddisgyblion bolisi gwrth-hiliaeth yr ysgol a'i gyflwyno i staff a disgyblion ynglŷn â'u newidiadau. Trwy Fagloriaeth Cymru, cynhyrchodd y disgyblion ffilm ar gyfer pobl sy'n cael anhawster mynd at rannau o safle treftadaeth lleol. Caiff disgyblion gyngor gwerthfawr ar yrfaoedd gan y gwasanaeth gyrfaoedd, colegau, a thrwy ymweliadau defnyddiol â busnesau lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae grŵp coginio ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd yn hyrwyddo bwyta'n iach, ac yn datblygu medrau coginio ar draws gwahanol genedlaethau.

Mae system olrhain newydd ar waith i fonitro cynnydd academaidd disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol. Mae athrawon yn defnyddio data o'r system hon yn briodol i nodi disgyblion a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith hyn. Fodd bynnag, yn 2018, ni ddefnyddiodd yr ysgol y wybodaeth o'u systemau olrhain yn ddigon da i dargedu tanberfformio yn effeithiol.

Mae arweinwyr bugeiliol yn monitro presenoldeb yn agos, a cheir ystod o strategaethau defnyddiol i annog a gwobrwyo presenoldeb da.

Mae staff a disgyblion yn dod yn fwy cyfarwydd â'r polisi 'Ymddygiad ar gyfer Dysgu' newydd, ac mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion. Fodd bynnag, mae lleiafrif o staff yn cymhwyso gweithdrefnau yn anghyson. Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod disgyblion sy'n destun pryder. Er bod y cyfarfodydd hyn yn galluogi staff i ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud yn gyffredinol, nid ydynt yn gwerthuso effaith ymyriadau penodol yn ddigon manwl.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa ar ddarpariaeth arbenigol yng nghyfnod allweddol 3 sydd, o'i chyfuno â rhaglen bontio ddefnyddiol, yn eu galluogi i elwa ar gwricwlwm wedi'i deilwra'n addas yng nghyfnod allweddol 4. Mae gan yr ysgol ymyriadau wedi'u targedu'n briodol i fodloni anghenion y disgyblion hyn, ac mae'r dosbarthiadau Anelu'n Uchel llai yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion mwy amrywiol yn gwneud cynnydd priodol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni gan ddefnyddio'r e-bost, negeseuon testun, y cylchlythyr ac ap ysgol i'r rhiant. Mae'r ysgol wedi sefydlu dull effeithiol o roi gwybodaeth i rieni am gynnydd eu plentyn. Mae adroddiadau interim a blynyddol yn hysbysu rhieni am gynnydd eu plentyn yn yr ysgol, ac yn dweud wrthynt sut i wella perfformiad presennol. Trwy adrodd am ddigwyddiadau dydd, gall rhieni a disgyblion ymgysylltu'n werthfawr â staff yr ysgol ac asiantaethau eraill sy'n cynnig cymorth ar gyfer dysgu a lles. Mae hyn wedi cyfrannu at ymgysylltiad gwell gan rieni â'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi meithrin ethos o ddidwylledd, ymddiriedaeth a chydweithio yn effeithiol. Mae ei arweinyddiaeth bwyllog, ddiffuant, sydd wedi'i seilio ar feithrin perthnasoedd gwaith cryf, yn llwyddo i sefydlu ymdeimlad o sefydlogrwydd yn yr ysgol. Mae wedi rhoi ystyriaeth dda i anghenion yr ysgol a'i chymuned o ran datblygu gweledigaeth sy'n seiliedig ar flaenoriaethau clir a throsfwaol, a gwerthoedd ar y cyd. Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r weledigaeth hon yn dda, ac adlewyrchir ei negeseuon allweddol yn llawer o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, ceir ymdeimlad ar y cyd o ddiben, ac ymrwymiad i wella.

Mae'r pennaeth wedi defnyddio dull sensitif i reoli newid. Mae'n adolygu cyfrifoldebau arwain ar draws yr ysgol, er nad yw'r strwythur presennol yn gytbwys.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu nifer o systemau a phrosesau defnyddiol. Mae'r rhain wedi helpu'r ysgol i gyflawni ei hamcanion, ac mae wedi cyfrannu at berfformiad cryf yr ysgol ar draws llawer o ddangosyddion hyd at 2018. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gwaith i alinio'r prosesau hyn, ac ar hyn o bryd, nid yw'r rhain yn darparu dull digon cydlynol o gefnogi gwelliant parhaus. Ceir rhaglen addas o gyfarfodydd arwain, gan gynnwys trefniadau priodol, ar gyfer rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn ddigon craff na strategol. Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol, ac nid eir i'r afael â chamau gweithredu'n ddigon da. At ei gilydd, nid yw amcanion rheoli perfformiad yn ddigon mesuradwy, ac mewn ychydig o achosion, maent yn anaddas.

Mae gan yr ysgol systemau atebolrwydd addas ar waith, fel cyfarfodydd rheolwyr llinell rheolaidd, monitro perfformiad disgyblion, adolygiadau adrannol a chyflwyniadau i'r corff llywodraethol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw arweinwyr bob amser wedi mynd i'r afael â thanberfformio mewn ffordd ddigon amserol neu effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol. Maent yn datblygu eu medrau'n fuddiol ac yn awyddus i wella eu rôl fel ffrind beirniadol. Maent wedi herio'r ysgol yn briodol ynglŷn ag agweddau ar berfformiad. Fodd bynnag, nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon manwl o ddata ar berfformiad, sy'n golygu na allant ofyn cwestiynau digon penodol am gyflawniad disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r rhan fwyaf o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r pennaeth newydd a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi nodi agweddau penodol priodol ar waith yr ysgol y mae angen eu gwella, ac yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno newidiadau i fynd i'r afael â'r rhain, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso eu heffaith. Er enghraifft, maent wedi addasu polisi ymddygiad yr ysgol ac wedi newid y systemau olrhain a monitro. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol ormod o flaenoriaethau gwella ac nid yw lleiafrif o gamau gweithredu i fodloni'r nodau bwriadedig hyn yn ddigon manwl, gan gynnwys ar lefel adrannol.

Mae gan yr ysgol ystod addas o systemau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith. Mae arweinwyr yn casglu barn rhieni a disgyblion hefyd. Maent wedi gwneud newidiadau gwerthfawr ar sail yr adborth hwn, fel y newidiadau i'r polisi gwrth-hiliaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn yn bwydo i'w gwerthusiad parhaus o effeithiolrwydd ei gwaith. O ganlyniad, mae diffyg cydlyniad i'r cylch hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, ac mewn ychydig o achosion, nid aethpwyd i'r afael â gwendidau pwysig yn ddigon cyflym nac yn ddigon trylwyr.

Er bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, a materion yn ymwneud â disgyblion unigol, nid ydynt bob amser yn ystyried yn ddigonol effaith yr hyn y maent yn ei wneud ac yn myfyrio ar y canfyddiadau o weithgareddau hunanwerthuso. Yn benodol, nid ydynt yn rhoi digon o sylw i farnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar fedrau disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi'n fanwl gywir y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi ystod briodol o ddata mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae trylwyredd dadansoddi data yn rhy amrywiol, ac at ei gilydd, nid yw'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg yn ddigon trylwyr.

Ceir diwylliant cynyddol o ddysgu proffesiynol yn yr ysgol. Mae llawer o gyfleoedd buddiol ar gyfer datblygu sy'n cysylltu'n briodol ag anghenion unigolion, ac â blaenoriaethau'r ysgol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar wella addysgeg. Erbyn hyn, mae athrawon yn archwilio strategaethau newydd trwy'r grŵp dysgu ac addysgu, ac yn defnyddio hyfforddwyr, ac arsylwadau cymheiriaid rheolaidd ac amserlenedig. Mae cymorth priodol i arweinwyr ddatblygu eu medrau.

Mae’r pennaeth, y rheolwr busnes a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac yn monitro gwariant yn agos.  Maent wedi gweithio’n llwyddiannus i adfer o sefyllfa lle’r oedd diffyg yn y gyllideb, ac mae ganddynt warged fach erbyn hyn.  Ceir staff ac adnoddau priodol yn yr ysgol.  Yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r ysgol wedi gwneud defnydd da o gyllid grant i gynorthwyo disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae hyn wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell ar gyfer y disgyblion hyn a oedd, hyd at 2018, yn cymharu’n dda â deilliannau eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2019